www.xtrapapers.com

M12/1/A1WEL/SP1/WEL/TZ0/XX

22120339

International Baccalaureate®
Baccalauréat International
Bachillerato Internacional

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 1**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 1**

Thursday 10 May 2012 (morning)
Jeudi 10 mai 2012 (matin)
Jueves 10 de mayo de 2012 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Write a commentary on one passage only. It is not compulsory for you to respond directly to the guiding questions provided. However, you may use them if you wish.
- The maximum mark for this examination paper is *[25 marks]*.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Rédigez un commentaire sur un seul des passages. Le commentaire ne doit pas nécessairement répondre aux questions d'orientation fournies. Vous pouvez toutefois les utiliser si vous le désirez.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est *[25 points]*.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Escriba un comentario sobre un solo fragmento. No es obligatorio responder directamente a las preguntas que se ofrecen a modo de guía. Sin embargo, puede usarlas si lo desea.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es *[25 puntos]*.


© International Baccalaureate Organization 2012

www.xtrapapers.com



*Ysgrifennwch sylwadau ar **un** o'r darnau hyn:*

**1.**

Mi ddaru'r cwsmeriaid fy ngholli pan euthum i'r ysbyty. Daeth sawl un ataf i ddweud hynny pan ddeuthum yn ôl. Wydden nhw ddim beth oedd yn bod arnaf – wyddai llawer ddim mai mewn ysbyty oeddwn i, a ddaru minnau ddim dweud. Cymryd fod mam efo babi bach newydd yn diflannu oddi ar wyneb y ddaear am gyfnod ddaru nhw. Ond os digwydd i rywun sôn wrthyf am iselder neu salwch meddwl, gobeithio y caf y dewrder i gyfaddef imi fod yn Rhydderch. Dydw i ddim yn meddwl yr af i byth yn ôl yno, ond taswn i'n mynd yno, mi garwn roi rhodd iddynt. Mi garwn roi tri chwpled iddynt gan Parry-Williams; byddwn yn eu fframio a'u gosod yn y Lle Eistedd, er mwyn i'r rhai sy'n nychu yno fyfyrio arnynt,

Gwae ni ein dodi ar dipyn byd
Ynghrog mewn ehangder sy'n gam i gyd,

A'n gosod i gerdded ar lwybrau nad yw
Yn bosib eu cerdded – a cheisio byw;

A'n gadael i hercian i gam o gam
Rhwng pechod ac angau heb wybod paham.

Ein diffyg ni yw ceisio anelu at berffeithrwydd bydol. Oherwydd y diwylliant roedden ni'n byw ynddo, roedden ni'n trio cael y tŷ perffaith, y gŵr perffaith, y babi perffaith, a byw bywyd oedd yn dragwyddol hapus. Ond nid byd felly ydi o. Mae o'n fyd cam, mae yna ddioddef ac angau, ac mae tri chwarter pobl y byd yn gwybod hynny. Bywyd o ddioddefaint, o anhapusrwydd, o galedi ydi o i'r mwyafrif, 'blaw bod cariad rhwng pobl a'i gilydd a Chariad Duw yn digwydd gwenu arnom o bryd i'w gilydd gan wneud y baich yn haws i'w oddef.

Dim ond mewn cymdeithas sy'n disgwyl perffeithrwydd mae salwch meddwl yn warth. Dyna sydd wrth wraidd ofn nytars. Mewn byd perffaith, does dim lle i nytars, i bobl hyll, i bobl wedi torri, i bobl sydd ddim yn "iawn". Dydyn nhw ddim yn cyrraedd safon "normalrwydd". Ac os mai eich anlwc chi ydi methu stopio crio, neu siarad yn ddisynnwyr, neu bod yn abnormal o ddigalon, cewch eich gosod mewn ysbyty a'ch llenwi efo cyffuriau, nes eich bod yn ddigon normal i ddod allan. Byd o gelwydd ydi o, o hapusrwydd ar yr wyneb. Ond dan yr wyneb mae pawb yn crio'n achlysurol, pawb yn brifo, pawb yn torri o dro i dro.

Un o'r ychydig gyfryngau sydd yn dangos pobl yn eu cyflwr normal ydi storïau a llyfrau. Y rhain sy'n derbyn pobl fel ag y maent, yn gymysgedd ryfeddol o gariad a chasineb, o ddewrder ac ofn, o ddaioni a malais, chwerthin a chrio. Hwn ydi'r byd go iawn.

Beth ydi normalrwydd felly ond llyfrau? Llên a barddoniaeth, cerdd a chân. Dyma sut yr ydym yn gwirioneddol gyfathrebu â'n gilydd. Dydi llyfrau ddim yn gofyn dim gennych chi, dim ond rhannu maen nhw – rhannu profiadau sy'n gyffredin tra ydan ni ar yr hen ddaear. A does dim rhaid cynnig ateb neu ddogma, dim ond dweud fel ag y mae, ac y mae'n wledd y cawn ni i gyd gyfranogi ohoni os dymunwn.

www.xtrapapers.com



Rydw i wedi dod i adnabod y bobl mwyaf lliwgar trwy gyfrwng llyfrau. Rydw i wedi cwrdd â phob math o gymeriadau, ac wedi mwynhau cwmni'r rhan fwyaf ohonynt. Cefais deithio i fannau rhyfeddol, i wledydd pell i ffwrdd ac i dir dychymyg. Eisteddais i lawr a chyd-fwyta â hwy, arhosais ar fy nhraed am oriau yn clywed eu hanesion. Clywais eu cyfrinachau dirgel, teimlais eu hofn a'u hangerdd. Merched oedd y rhelyw ohonynt, a chefais ffrindiau na wnaf fyth eu hanghofio. Y peth braf efo llyfrau ydi nad ydyn nhw byth yn eich gadael. Does dim gwahanu, does dim marw. Hyd yn oed os ydynt yn marw yn y stori, cewch fynd yn ôl i'r dechrau a'u hatgyfodi.

Maen nhw yma yn gwmni i mi. A phan fyddaf yn teimlo yn unig, y cwbl sydd rhaid i mi ei wneud yw codi, cyrchu'r silff, agor y clawr, a rydw i'n ôl yn eu cwmni. Os bûm i'n amau iddynt fodoli o gwbl, mae cysur i'w gael o ddarllen geiriau – du ar wyn, sydd yno i aros hyd yn oes oesoedd.

A weithiau, does dim rhaid i mi agor clawr. Ers dod adre, mi fydda i'n teimlo eu cwmni yma. Ar bnawn tawel, pan nad oes neb yma ar wahân i mi, fe glywaf chwerthin rhwng y silffoedd, a dydw i ddim yn dychryn. Fwy nag unwaith, gwelais gysgod coban yn diflannu i fyny'r grisiau. Ac ar nosweithiau gwlyb a thywyll rydw i hyd yn oed wedi gweld cysgodion yn taro ar y ffenestri, a sŵn traed yn dawnsio. Wrth gwrs, rydw i'n ddigon aeddfed erbyn hyn i wybod nad oes fiw i mi gyfaddef neu rannu hyn efo neb…

Rhag ofn…

Angharad Thomas, *Wrth fy nagrau i* (2007)

- Ym mha ffordd a pha mor effeithiol y dadleuir gan yr awdur mai "Byd o gelwydd ydi o"?
- Pa fath ddelwedd o'r cymeriad a gaiff y darllenydd yn y darn a sut y'i cyflëir?
- Trafodwch ddefnydd ac arwyddocâd y llinellau o farddoniaeth a ddyfynnir.
- Trafodwch dechneg naratif yr awdures, hynny yw'r defnydd o'r person cyntaf.

www.xtrapapers.com



**2.**

**Hen warws a addaswyd yn siop hen bethau**

Mae'n gyflwr cyffredin, mi wn;
yn y ddinas *déraciné**,
bod rhai a gefnodd ar gymuned
am gyflog, am gyfleoedd,
yn trefnu rhyw du-fewn tyddynnaidd
i'w cartrefi dau-gan-mil-o-bunnoedd,
fel pe bai'r ceginau pren,
y bathiau Fictorianaidd ffug,
rywsut yn costrelu, fel creiriau crefyddol,
werthoedd gwirionedd coll.

A 'rwyf i 'run fath;
yn fy nghael fy hun ar brynhawn o law
yn crwydro'r siopau creiriau
am sinciau enamel, llefydd tân haearn,
angenrheidiau'r dosbarth gweithiol gynt
yn awr yn addurniadau'r ariannog.

Talu am atgofion; gwario ar orffennol;
dodrefnu, â chelfi solet, ein byd disylwedd.

Mae holl gelfi'r cynhyrchiad i'w cael fan hyn:
dewiswch eich delwedd – plasty, gweithdy;
cymerwch eich cyfnod – *nouveau*, *deco*,
*retro*, *repro*.

A 'dyw'n poeni dim arna' i, mewn gwirionedd;
a'n gwareiddiad yn arwerthiant,
yn siop siafins, yn sêl-cist-car,
pa ots pa sborion atgofus a gasglwch,
pa drugareddau di-gyd-destun a heliwch i'ch amgylchynu.

Hysbysebion naïf y tridegau;
teganau tun y pumdegau;
lampau lafa'r saithdegau;
*kitch*, *cachet*, cashio-mewn.
'Dyw'n poeni dim arna' i,
ddim hyd yn oed i weld pulpudau capeli
a'u seddi di-saint
ar werth fel celfi cegin.
Poeni dim.
A'u dydd ar ben, pa ots eu hailgylchu?

www.xtrapapers.com



Ond dyma, ar ben hen biano,
bentwr o flychau casglu'r deillion.
Blychau bach cardfwrdd gwyn,
yn dwyn ffoto o fachgen bach,
dwyflwydd, tair,
a'i lygaid fel rhai doli ynghau,
yn teimlo'u ffordd trwy fydysawd du.

Maen nhw'n saith bunt yr un.

Blwch bach cardbord a fu'n llawn ceiniogau cariad
yn awr yn gywreinbeth i'r cefnog
â'u rhoddion saith bunt seithug.

Mae gofal ar werth;
elusengarwch yn geriach i'w gasglu.

Pa bryd y tynnwyd y llun 'na, tybed?
Y pedwardegau, pumdegau, llai?
Fe all fod y plentyn yna'n dal yn fyw.
Os yw, mae un cysur i'w gael;
welith e ddim y pris ar ei brofedigaeth,
welith e ddim y ffordd yr ydym
wedi masnacheiddio moesoldeb,
troi tosturi'n destun siarad,
ac aberth yn *objet d'art*.

Grahame Davies, *Cadwyni Rhyddid* (2001)

* *déraciné*: heb wreiddiau

– Trafodwch agwedd y bardd at bobl y ddinas ac at y byd heddiw a sut y cyflwyna'r agwedd hon?

– Rhowch sylw i batrymau sain ac iaith y gerdd.

– Trafodwch y sefyllfa a bortreadir yn rhan olaf y gerdd pan wêl y bardd flychau casglu'r deillion ar werth, a dadansoddwch sut y cyflëir eironïau'r sefyllfa.